Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adolygiad y Pwyllgor Dethol

## Gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer oedolion ifanc, 18–25 oed.

## Adroddiad cryno

## Ebrill 2026

1. **Crynodeb gweithredol** .... 2
2. **Argymhellion** .... 4
3. **Cyflwyniad** .... 6
**Adolygiad cyntaf y Pwyllgor Dethol** .... 6
4. **Gwasanaethau cyfredol** .... 8
5. **Effaith ar ymgysylltu ag oedolion ifanc a'u hatal rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol** .... 14
6. **Ymwybyddiaeth o wasanaethau** .... 24
7. **Edrych ymlaen** .... 26

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer oedolion ifanc 18–25 oed sy'n troseddu ac yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyfredol. Cynigiwyd argymhellion sy'n gysylltiedig â meysydd i'w gwella.

## Gwasanaethau cyfredol

1. Mae enghreifftiau o arferion da yn bodoli mewn gwasanaethau atal, sy'n tystio i gydweithrediad amlasiantaethol cryf.
2. Mae prinder a dirywiad wedi bod mewn gwasanaethau atal sylfaenol sy'n darparu ar gyfer anghenion penodol oedolion ifanc.
3. Ymddengys mai dim ond ar ôl i risg o droseddu gael ei nodi y mae llawer o'r gwasanaethau cyfredol ar gael i oedolion ifanc.
4. Mae oedolion ifanc yn ystyried gweithgarwch atal yn flaenoriaeth, a rhaid gwrando ar eu lleisiau.
5. Mae papur gwyn Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r heddlu yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, partneriaethau ac atal troseddau'n rhagweithiol.
6. Mae diffyg darpariaeth gyffredinol, mynediad agored mewn gwasanaethau atal i bobl 18–25 oed, ac er bod sefydliadau'n cael anhawster ennyn diddordeb oedolion ifanc mewn gwasanaethau cyffredinol fel clybiau ieuenctid, mae darparu gwasanaethau o'r fath yn bwysig i bobl ifanc.
7. Mae angen i wasanaethau cyfredol gyrraedd oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn well.
8. Mae oedolion ifanc a oedd wedi ymgysylltu â gwasanaethau yn adrodd am brofiadau cadarnhaol ond roeddent yn pryderu bod y ddarpariaeth yn fyrdymor.

## Effaith ar ymgysylltu ag oedolion ifanc a'u hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol

9. Mae tystiolaeth yn dangos bod ymennydd pobl 18–25 oed yn parhau i ddatblygu, gan eu gwneud yn fwy agored i ddylanwadau niweidiol sy'n eu denu i weithgarwch troseddol.
10. Felly, er mai yn safle pedwar mae'r grŵp oedran o ran cyfradd cyflawni troseddau ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys (y tu ôl i'r carfanau 26–35, 36–45 a dan 18 oed), mae darparu gwasanaethau ar gyfer y garfan hon yn hanfodol wrth atal ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.
11. Mae troseddau mwyaf cyffredin y garfan yn awgrymu anawsterau â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol fel rheoli dicter a pherthnasoedd cadarnhaol ac iach. Mae angen sicrhau bod gweithgaredd atal yn canolbwyntio ar y meysydd hyn.

12. Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn deall eu proffiliau oedran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llawn. Mae hyn yn rhwystro dealltwriaeth o ble y gellir targedu ymyrraeth i gael yr effaith orau.
13. Mae iechyd meddwl a niwrowahaniaeth yn fater sy'n effeithio ar oedolion ifanc ac yn codi dro ar ôl tro. Mae angen i wasanaethau gydweithio fwyfwy i ddiwallu anghenion cymhleth oedolion ifanc.
14. Mae angen gwneud mwy i orfodi llwybrau i weithgarwch dargyfeiriol trwy ddefnyddio Canlyniad 22.
15. Mae Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a RAY Ceredigion yn hyrwyddo ymyrraeth yn ystod plentyndod fel y ffordd fwyaf effeithiol o leihau troseddu ymhlith oedolion ifanc.
16. Gall fod yn anodd mesur effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu, ond mae enghreifftiau o arferion da yn bodoli.

## Ymwybyddiaeth o wasanaethau

17. Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn isel.
18. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth yn hyderus yng ngwybodaeth a dealltwriaeth eu staff o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i oedolion ifanc ar draws y gwahanol asiantaethau.
19. Nid yw oedolion ifanc yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt, ac mae angen cymryd camau i hyrwyddo'r gwasanaethau ac astudiaethau achos cadarnhaol yn weithredol.

## 2. Argymhellion

Mae 13 o argymhellion wedi cael eu cyflwyno gan y Pwyllgor Dethol ac maent wedi'u grwpio o dan is-benawdau perthnasol yr adroddiad isod.

### Gwasanaethau cyfredol

1. Rhaid gwrando ar leisiau plant ac oedolion ifainc a ymatebodd i 'Arolwg Lleisiau Ieuenctid' Heddlu Dyfed-Powys: rhaid i Heddlu Dyfed-Powys ystyried sut maen nhw'n dangos tystiolaeth o effaith eu gweithgarwch atal i blant ac oedolion ifainc.
2. Rhaid i bartneriaid ystyried y ffordd maen nhw'n cyflenwi gweithgareddau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth mynediad agored wedi'u teilwra, sy'n targedu pobl 18-25 oed yn benodol. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am y gwasanaethau cyffredinol a ddarperir o dan ganllawiau 'Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflenwi ar gyfer pobl ifainc'.
3. Dylai Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gychwyn trafodaethau mewn perthynas â strwythur llywodraethu ffurfiol, sy'n cyd-fynd â gweithgarwch partneriaeth presennol, yn benodol, mewn perthynas â gweithgarwch atal sy'n gysylltiedig â'r garfan 18-25.

### Effaith ar ymgysylltu ag oedolion ifanc a'u hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol

4. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gydlynu adolygiad o wasanaethau ymyrryd, atal ac ymgysylltu o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl 18-25 oed er mwyn sicrhau ffocws penodol ar sgiliau emosiynol, rheoli dicter a pherthnasau iach.
5. Dylai Heddlu Dyfed-Powys ystyried datblygu Proffil Strategol i ystyried yn fanwl trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflawnir gan y garfan 18-25 oed yn benodol ledled yr ardal heddlu, i adnabod meysydd ffocws posibl ar gyfer gwasanaethau rheoli troseddwyr, ymyrraeth, atal ac ymgysylltu yn y dyfodol. Dylid rhannu'r canfyddiadau â phartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus fel rhan o'u hasesiadau lles.
6. Rhaid i Heddlu Dyfed-Powys ddiweddaru eu dangosfyrddau data i sicrhau bod grwpiau oedran yn cael eu cynnwys yn rheolaidd ym mhob set ddata er mwyn deall proffiliau oedran troseddwyr yn well.
7. Drwy graffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar Gynlluniau Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau, dylid ystyried asesu effeithiolrwydd cysylltiad cynnar gwasanaethau iechyd meddwl yn y broses datrys problemau. Yna, dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddefnyddio'r wybodaeth hon i lobïo, ochr yn ochr â chymheiriaid o Gymru, ar lefel genedlaethol ar gyfer adnoddau a gallu digonol i ymateb i anghenion iechyd meddwl cymhleth oedolion ifainc.
8. Dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio sicrwydd bod Canlyniad 22 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn atal pobl 18-25 oed rhag troseddu yn y dyfodol.

9. Dylai Gwasanaethau Ieuenctid Caerfyrddin rannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad o drosglwyddo o Wasanaethau Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf gyda thimau Gwasanaethau Ieuenctid eraill ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Dylai Gwasanaethau Ieuenctid Ceredigion, Sir Benfro a Phowys gydweithio â'r Gwasanaeth Prawf i ystyried sut y gellir cymhwyso'r polisi/cytundeb trosglwyddo â'r Gwasanaeth Prawf yn ardal eu hawdurdod lleol.
10. Dylai Dadansoddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio data'r heddlu a phartneriaid i fesur ac olrhain effaith gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Ymwybyddiaeth o wasanaethau

11. Dylai Hyfforddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn a Thrawma Heddlu Dyfed-Powys weithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen hyfforddi er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r agenda ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n berthnasol i oedolion ifainc 18-25 oed ar draws yr asiantaethau gwahanol.
12. Yn gyson â'r rhaglen hyfforddi argymelledig, dylai partneriaid hyrwyddo'r gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd ar gael i oedolion ifainc 18-25 oed yn weithredol.
13. Gyda chymorth partneriaid a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rhaid i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau bod y Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu'n cael ei weithredu, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu ag oedolion ifainc mewn sefydliadau addysg uwch, yn ogystal â'r rhai sydd ddim mewn addysg.

## 3. Cyflwyniad

Sefydlwyd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae ganddynt ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd.

Ochr yn ochr â'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Perfformiad Strategol, cynhaliwyd llywiwyd adolygiad y Pwyllgor Dethol i ganolbwyntio ar bwnc penodol, yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025–29 ac a nodwyd fel meysydd allweddol i graffu arnynt a'u datblygu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Disodlwyd y dull adolygu craffu dwys a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan y dull adolygu hwn.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer dull y Pwyllgor Dethol ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae adolygiad y Pwyllgor Dethol wedi galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddwyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif yn gyhoeddus, trwy graffu ar dystiolaeth a gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid allweddol mewn gwrandawiadau'r Pwyllgor Dethol a thrwy ymgysylltu ac ymgynghori.

Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gynnull partneriaid perthnasol a all ddylanwadu ar ddarpariaeth a helpu i lunio gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae adolygiad y Pwyllgor Dethol wedi caniatáu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu arfer ei rôl mewn modd tryloyw, drwy'r canlynol:

- Sicrhau gwaith craffu cadarn a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif;
- Sicrhau bod llais dioddefwyr a goroeswyr yn cael ei glywed;
- Cynnwys y cyhoedd mewn atebolrwydd lleol;
- Gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- Cyhoeddi gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i asesu perfformiad Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid.

### Adolygiad cyntaf y Pwyllgor Dethol

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Heddlu Dyfed-Powys y dasg o ddatblygu gwasanaeth ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer plant dan 18 oed. Gellir gweld yr hyn a ddysgwyd o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn nogfen atodiadau'r adroddiad cryno, yn Atodiad A.

Roedd yr adolygiad hwn gan y Pwyllgor Dethol yn ategu gwaith Heddlu Dyfed-Powys, gan ganolbwyntio ar ofynion gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer oedolion ifanc, 18–25 oed. Gellir

dod o hyd i'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu[1] yn nodi "*er bod pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn oedolion yn ôl y gyfraith, mae Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn cydnabod bod aeddfedrwydd yn cymryd amser i ddatblygu a gall bregusrwydd barhau*"[2].

Mae cefnogaeth academaidd cynyddol hefyd i drin oedolion ifanc 18–25 oed fel grŵp ar wahân o fewn y system cyfiawnder troseddol[3]. Er bod gwyddonwyr wedi meddwl ers tro bod yr ymennydd dynol yn ffurfio yn ystod plentyndod cynnar, mae rhywfaint o ymchwil yn dangos bod datblygiad yr ymennydd yn parhau i mewn i ugeiniau unigolyn: Felly, efallai bod y garfan hon yn fwy agored i ddylanwadau anffafriol gan fod y rhannau o'r ymennydd sy'n rheoli meddwl uwch yn parhau i ddatblygu tan eu hugeiniau cynnar[4].

Mae ymchwil mwy diweddar gan Brifysgol Caergrawnt yn dangos bod yr ymennydd mewn gwirionedd yn parhau i fod mewn cyfnod llencyndod tan ddechrau'r tridegau[5].

Ceisiodd adolygiad Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ateb y canlynol:

**1. Beth yw effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar oedolion ifanc 18-25 oed?**

**2. Pa welliannau y mae eu hangen, os o gwbl, yn y ddarpariaeth o wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer oedolion ifanc 18-25 oed?**

Mae'r adolygiad wedi ystyried statws gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yr effaith y maent yn ei gael droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, a'r effaith sydd gan y gwasanaethau ar ddiogelu oedolion ifanc agored i niwed rhwng 18 a 25 oed.

Unwaith i'r adroddiad cryno gael ei lunio, ac argymhellion wedi'u datblygu, cynhaliodd CHTh Drafodaeth Bord Gron gyda chynrychiolwyr allweddol o HDP ac awdurdodau lleol. Roedd hwn yn gyfle i drafod a chytuno ar yr argymhellion a'r strwythur llywodraethu cyn cyhoeddi.

[1] Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027
[2] Tudalen 6, Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027
[3] *Criminal court sentencing: The case for specialist 'young adult' courts*, Ward a Spence, 2023
[4] *Dynamic mapping of human cortical development during childhood through early adulthood*, Gogtay ac ati, 2004.
[5] Four pivotal ages in your brain's development revealed in new scientific study - BBC News

O'r pwynt hwn yn yr adroddiad ymlaen, defnyddir y term 'gwasanaethau' i ddisgrifio 'gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol', a defnyddir y term 'oedolion ifanc' i ddisgrifio 'oedolion ifanc 18–25 oed'.

## 4. Gwasanaethau cyfredol

Y gwasanaethau cyfredol a oedd wedi'u cynnwys yng ngweithgaredd mapio'r Pwyllgor Dethol oedd y rhai canlynol:

- gwasanaethau a gyflwynir gan sefydliadau a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu,
- gwasanaethau wedi'u cyflwyno gan sefydliadau partner a dderbyniodd gyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn benodol ar gyfer gweithgareddau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu, a
- gwasanaethu yr oedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ymwybodol ohonynt.

Cydnabyddir efallai na fydd rhai gwasanaethau wedi cael eu cipio drwy'r broses hon. Ystyriwyd ymarfer mewn ardaloedd y tu allan i ranbarth Heddlu Dyfed-Powys gan y Pwyllgor Dethol hefyd. Gellir gweld canlyniadau'r gweithgaredd mapio yn Atodiad B o ddogfen atodiadau'r adroddiad cryno.

Un anhawster cynnar a gafwyd wrth fapio gwasanaethau cyfredol oedd y diffyg ymddangosiadol o ddiffiniadau cyson ar gyfer y termau 'ymyrraeth' ac 'atal'. Ystyriwyd nifer o ddiffiniadau cenedlaethol a lleol cyn cynnal y gweithgaredd mapio, a manylir arnynt yn Atodiad C.

Nid oedd rhai gwasanaethau'n diffinio eu hunain yn benodol fel gwasanaethau troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, er y gallai'r ddarpariaeth fod wedi cefnogi unigolion a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o droseddu neu fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.  Er enghraifft, Rekindle ym Mhowys oedd yr unig elusen iechyd meddwl, a nodwyd drwy'r gweithgaredd mapio, a nodwyd ei bod yn cefnogi pobl ifanc 16–25 oed gyda'r bwriad o annog pobl ifanc i gamu oddi wrth weithgarwch troseddol. Cydnabuwyd y gallai gwasanaethau tebyg eraill fod ar gael ond nad oeddent yn hawdd eu hadnabod o ran cyd-fynd â chylch gwaith yr adolygiad hwn.

Darganfuwyd bod y termau'n aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, a gall yr ystyr a roddir i 'ymyrraeth' ac 'atal' fod yn wahanol. Er enghraifft, mae diffiniad Rhwydwaith Atal Troseddau'r Undeb Ewropeaidd, a hyrwyddir ar wefan Cymunedau Mwy Diogel Cymru[6], yn rhoi pwyslais yr atal ar y drosedd ei hun, ond o fewn cyd-destun Iechyd Cyhoeddus, rhoddir y pwyslais ar y ffactorau risg y mae unigolyn yn agored iddynt a fyddai'n eu gwneud yn agored i ymddygiadau troseddol.

[6] Trosedd ac Atal Troseddu - Cymunedau Diogelach Cymru

Defnyddiwyd y diffiniad o atal a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan y Pwyllgor Dethol, a theimlwyd ei fod yn ymgorffori'r holl wasanaethau[7].

- *Atal sylfaenol – Adeiladu cydnerthedd – creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd gyffredinol.*
- *Atal eilaidd – Targedu camau tuag at feysydd lle mae risg fawr y bydd problemau'n digwydd. Ymagwedd wedi ei thargedu sy'n sefydlu egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar.**
- *Atal trydyddol – Ymyrryd pan fydd problem wedi digwydd, i'w hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd ymyrryd.*
- *Gwariant aciwt – Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Ymagwedd adferol.*[8]

### ***Mae enghreifftiau o arferion da yn bodoli mewn gwasanaethau atal, sy'n tystio i gydweithrediad amlasiantaethol cryf.***

Yn sail i Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024 – 2027 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu[9] mae tair colofn portffolio, ac un ohonynt yw 'Eich Dyfodol'. O dan y golofn hon, mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn pwysleisio pwysigrwydd yr heddlu yn y gwaith o ddatblygu *"mwy o bartneriaethau i ddargyfeirio a darparu gweithgareddau cadarnhaol sy'n meithrin hunaniaeth gymdeithasol bro fel y rhaglen Kicks".*[10] Felly, mae'n galonogol, drwy adolygiad y Pwyllgor Dethol, derbyn adroddiadau am berthnasoedd gwaith cadarnhaol yn lleol, fel y rhai a ddarparwyd gan Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi:

- Drwy ymyriadau wedi'u teilwra, cryfhau cydweithio amlasiantaethol, ac arferion sy'n ystyriol o drawma, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn gweithio i greu amgylcheddau sy'n hyrwyddo gwydnwch, yn cefnogi ffurfio hunaniaeth gadarnhaol, ac yn grymuso oedolion ifanc gyda'r sgiliau sydd eu hangen i ymatal rhag troseddu.
- Mae tystiolaeth o waith partneriaeth cryf yn Uned Gyflawni Prawf Dyfed-Powys, yn enwedig rhwng Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.

Mae'n galonogol hefyd fod y dystiolaeth o ymgysylltiad y Pwyllgor Dethol ag oedolion ifanc yn dangos bod mentrau fel Premier League Kicks[11], a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac a ganmolir gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn eu strategaeth, yn adnabyddus ac yn cael eu defnyddio'n

[7] Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu - Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[8] Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu - FGC - CYM
[9] Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027
[10] Tudalen 8, Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027
[11] Rhaglen gymunedol pêl-droed - Premier League Kick

lleol. Roedd menter Premier League Kicks Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe[12] yn un o'r gwasanaethau yr oedd ymatebwyr yr arolwg fwyaf ymwybodol ohoni ac wedi'i defnyddio. Mae rhagor o fanylion am ymgysylltiad y Pwyllgor Dethol ag oedolion ifanc, gan gynnwys crynodeb o'r canfyddiadau, i'w gweld yn Atodiad D o ddogfen atodiadau'r adroddiad cryno.

Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg am Premier League Kicks: *"Rwy'n credu bod hon yn fenter ardderchog gan ei bod hi'n rhad ac am ddim i bobl fynychu, gan ddileu rhwystrau a galluogi'r rhai a allai fod yn fwy tueddol o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol i wneud rhywbeth cynhyrchiol. Mae'n rhoi cyfleoedd na fyddent ar gael fel arall i bobl ifanc ardal Aberystwyth."*

Yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol, siaradodd tystion awdurdodau lleol am ddull integredig o ddarparu gwasanaethau, sydd wedi'i gydnabod fel ymarfer gorau ac sy'n caniatáu cydweithio i ymgysylltu ag oedolion ifanc a'u cefnogi rhwng y gwahanol asiantaethau mewn meysydd fel ailsefydlu. Darparwyd enghreifftiau penodol o wahanol fentrau yn y gwrandawiad, megis y panel amlasiantaeth Channel a Prevent[13], a mentrau megis y rhaglen sgiliau tenantiaeth yn Sir Benfro[14] sy'n helpu oedolion ifanc i drosglwyddo i fyw'n annibynnol. Mae rhagor o wybodaeth am wrandawiad Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a thystiolaeth tystion i'w gweld yn Atodiad E.

Siaradodd tystion o awdurdodau lleol yn gadarnhaol am drefniant amlasiantaeth y Timau Troseddwyr Ifanc a'r gwasanaethau cymorth, gan dynnu sylw at rolau staff a secondiwyd i'r timau o asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth prawf.

Trafodwyd hefyd gydweithio rhwng awdurdodau lleol a busnesau lleol wrth ddarparu gwasanaethau, gyda thystion yn nodi perthynas gadarnhaol a chyfarfodydd rheolaidd i drafod cyfleoedd ymgysylltu, addysg a hyfforddiant sydd ar gael trwy'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd yn y gwaith[15].

Mewn perthynas â'u perthynas â'r heddlu yn benodol, cyfeiriodd tystion awdurdodau lleol at berthnasoedd gweithredol cryf a hyfforddiant cydweithredol ar draws gwasanaethau ieuenctid. Fodd bynnag, nododd tystion drosiant uchel o gynrychiolwyr yr heddlu, mewn cyfarfodydd lefel weithredol a strategol, a oedd yn her o ran gweithio mewn partneriaeth. Yn eu tystiolaeth, cydnabu tystion Heddlu Dyfed-Powys feysydd i'w gwella yn eu gwaith partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau.

Canmolwyd argaeledd gwasanaethau trawsffiniol i oedolion ifanc yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol: nid oedd tystion yn ystyried lleoliad yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau a rhoddwyd enghreifftiau o oedolion ifanc yn cael mynediad at wasanaethau yn ardal eu hawdurdod lleol cyfagos. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol

---

[12] Premier League Kicks | Abertawe
[13] Gweithgaredd ymyrraeth ac atal cadarnhaol cynnar sy'n cefnogi ac yn helpu oedolion ifanc a allai fod yn agored i gael eu denu i derfysgaeth.Canllawiau panel aml-asiantaeth Channel a Prevent - GOV.UK
[14] Diweddariad ar flaenoriaethau strategaeth rhaglen cymorth tai - Cyngor Sir Penfro
[15] Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: llawlyfr [HTML] | LLYW.CYMRU

rheolaidd er mwyn sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael eu hystyried yn effeithiol o fewn gwasanaethau ieuenctid, ac mae gan bob awdurdod lleol fynediad at ffurflen atgyfeirio ranbarthol.

***Mae prinder a dirywiad wedi bod mewn gwasanaethau atal sylfaenol sy'n darparu ar gyfer anghenion penodol oedolion ifanc.***

Fodd bynnag, drwy'r gweithgaredd mapio, ymddengys mai dim ond ar ôl i risg o droseddu gael ei nodi, a chyfeiriad gael ei wneud, y mae llawer o'r gwasanaethau ar gael i oedolion ifanc. Felly, trwy'r gwaith mapio dangoswyd fod bwlch yn narpariaeth y mathau o weithgarwch atal a nodir yn Ffigur 1 ar gyfer oedolion ifanc: Bwlch yn y dull mynediad agored cyffredinol o dan 'atal sylfaenol'. Ymddengys mai 'atal trydyddol' yw'r unig atal cyson amlwg sydd ar gael.

Pwysleisiwyd yr angen am wasanaethau atal gan blant ac oedolion ifanc hyd at 25 oed drwy 'Holiadur Llais yr Ifanc' a gynhaliwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, a arweiniwyd gan eu swyddogion cyswllt ysgolion. Yng ngwrandawiad Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, dywedodd cynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys fod eu harolwg, a dderbyniodd dros 1,800 o ymatebion, wedi gofyn i blant a phobl ifanc beth oeddynt ei angen gan Heddlu Dyfed-Powys. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd atal, ac yna ymateb i alwadau ac ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod plant ac oedolion ifanc yn cydnabod yr angen am wasanaethau atal.

Mae papur gwyn Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'O'r lleol i'r cenedlaethol: Model newydd ar gyfer plismona' (Y Swyddfa Gartref, 2026) yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, partneriaethau ac atal troseddau'n rhagweithiol:

> *"Er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chynyddu hygyrchedd, bydd swyddogion [yr heddlu] hefyd yn cynnal presenoldeb gweladwy mewn hybiau lleol, ysgolion a mannau cymunedol, gan feithrin perthnasoedd fel partneriaid cymunedol hygyrch yn hytrach nag fel ymarferwyr gorfodi'r gyfraith yn unig."*

> *"Fodd bynnag, mae atal effeithiol yn mynd y tu hwnt i blismona. Mae angen dull datrys problemau amlasiantaeth arnom sy'n edrych ar yr hyn sy'n achosi troseddu ac yn mynd i'r afael â'r pethau hyn drwy'r ystod lawn o offer a data sydd ar gael i ni – o welliannau dylunio strydoedd i ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddu. Mae'r ymyriadau hyn yn dibynnu ar awdurdodau lleol, ysgolion, partneriaid iechyd, y sector preifat a rheoleiddwyr cenedlaethol cymaint â'r heddlu."*

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU, mae Uned Atal Troseddau newydd wedi'i sefydlu o fewn y Swyddfa Gartref, gan ganolbwyntio ar ddeall problemau troseddau cenedlaethol yn well a gweithio gydag ardaloedd lleol i fynd i'r afael â nhw'n fwy effeithiol a lledaenu arferion gorau. Mae Canolfannau Dyfodol Pobl Ifanc a Phartneriaethau Atal yn cael eu ehangu, gyda Phaneli Dyfodol Pobl Ifanc yn cael eu

treialu mewn ardaloedd dethol ledled Cymru a Lloegr i nodi, asesu ac atgyfeirio plant sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddu at wasanaethau cymorth wedi'u teilwra.

Mae'n bwysig i blismona a phartneriaid fonitro'r datblygiadau hyn yn agos, er mwyn sicrhau y gellir efelychu unrhyw arfer gorau o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

**Argymhelliad 1: Rhaid gwrando ar leisiau plant ac oedolion ifainc a ymatebodd i 'Arolwg Lleisiau Ieuenctid' Heddlu Dyfed-Powys: rhaid i Heddlu Dyfed-Powys ystyried sut maen nhw'n dangos tystiolaeth o effaith eu gweithgarwch atal i blant ac oedolion ifainc.**

Mae bwlch mewn gwasanaethau atal mynediad agored yn amlwg o'r adborth a ddarparwyd yng ngwrandawiad Pwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu: tynnwyd sylw at ddiffyg darpariaeth gyffredinol mewn gwasanaethau atal ar gyfer pobl 18-25 oed gan dystion o awdurdodau lleol. Er bod gwasanaethau fel clybiau ieuenctid ar gael, maent yn ei chael hi'n anodd denu oedolion ifanc i ddefnyddio gwasanaethau o'r fath. Yn eu hymateb i'r arolwg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Dethol, pwysleisiodd oedolion ifanc fod darpariaeth clybiau ieuenctid yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol.

Yn Nhrafodaeth Bord Gron CHTh, cynghorodd cynrychiolwyr awdurdod lleol am y canllawiau 'Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflenwi ar gyfer pobl ifainc'[16].a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan adlewyrchu ar y gofyniad canllawiau bod yn rhaid i waith ieuenctid "hwyluso cyfleoedd cyffredinol a thargedig i bobl ifainc gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau ar gyfer gwella eu lles corfforol, emosiynol a meddyliol." [17].

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan RAY Ceredigion yn eu galwad agored i gyflwyno tystiolaeth yn cefnogi'r canfyddiad hwn ymhellach, gan iddynt dynnu sylw at yr angen i fuddsoddi mewn darpariaeth ieuenctid y tu allan i'r ysgol, darpariaeth wedi'i thargedu a mynediad agored ill dau. Adroddwyd hefyd gan RAY Ceredigion am ostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae rhagor o fanylion am y dull galwad agored am dystiolaeth ar gael yn Atodiad F yn nogfen atodiadau'r adroddiad cryno, lle mae'r cyflwyniadau tystiolaeth gan RAY Ceredigion a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar gael yn eu cyfanrwydd.

Yn eu cyflwyniad galwad agored am dystiolaeth, tynnwyd sylw gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi at heriau parhaus o ran cael mynediad at wasanaethau i oedolion ifanc oherwydd natur wledig ardal Heddlu Dyfed-Powys.

**Argymhelliad 2: Rhaid i bartneriaid ystyried y ffordd maen nhw'n cyflenwi gweithgareddau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth mynediad agored wedi'u teilwra, sy'n targedu pobl 18-25 oed yn benodol. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi**

[16] Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc| Llywodraeth Cymru
[17] Tudalen 7, Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc| Llywodraeth Cymru

**gwybodaeth am y gwasanaethau cyffredinol a ddarperir o dan ganllawiau ‘Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflenwi ar gyfer pobl ifainc’.**

Yn y gwrandawiad, wrth drafod darparu gwasanaethau yn yr hirdymor, pwysleisiodd tystion awdurdodau lleol bwysigrwydd ymrwymiadau ariannu aml-flwyddyn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cadw gweithluoedd a galluogi parhau i ddarparu gwasanaethau mor bwysig, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb mewn cefnogaeth i oedolion ifanc a allai fod yn agored i niwed.

### *Mae oedolion ifanc sydd wedi ymgysylltu â gwasanaethau yn adrodd am brofiadau cadarnhaol ond maent yn pryderu bod y ddarpariaeth yn fyrdymor.*

Roedd pymtheg o’r oedolion ifanc a ymgysylltodd â’r Pwyllgor Dethol drwy’r arolwg uchod wedi defnyddio gwasanaethau a restrir yn yr arolwg. Rhannwyd profiadau cadarnhaol ac adroddwyd am effaith gadarnhaol ar eu sefyllfa gan y mwyafrif: *“Roedd yn ddefnyddiol iawn ac fe helpodd fi i gysylltu â phobl yn yr un sefyllfa.”* (Hyfforddiant Llwybrau Newydd ar drais yn erbyn dynion a menywod.)

Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan rai mai dim ond am gyfnod byr y mae’r gwasanaethau’n cael eu darparu: *“Cefais fy arestio am ymddygiad gwrthgymdeithasol … nid yw’r gwasanaethau’n ddigon hir; collais weithiwr y gwnes i fondio ag ef.”* (Phoenix, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd)

Cadarnhawyd hyn drwy’r ymarfer mapio a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Dethol, lle’r oedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o’r gwasanaethau cyfredol yn cynnig gwaith ymyrraeth ac atal tymor byr.

Yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol, nododd tystion awdurdodau lleol, er y gellir ymestyn eu gwasanaethau ieuenctid i’r rhai sy’n trosglwyddo i wasanaethau Prawf, anaml y gwneir hynny. Mae hyn yn awgrymu bod y gefnogaeth a ddarperir i’r rhai dan 18 oed gan y gwasanaethau ieuenctid yn dod i ben yn y rhan fwyaf o achosion pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed. Gall pobl ifanc ddatblygu perthynas â’u gweithiwr cymorth ieuenctid, fel y nodir yn y dyfyniad uchod, a phrofi buddion parhaus o’r gwasanaethau a ddefnyddir, dim ond i hyn ddod i ben pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bryder ynghylch pwy sy’n gyfrifol am sicrhau bod gweithgareddau a gwasanaethau atal perthnasol ar gael yn benodol ar gyfer oedolion ifanc 18–25 oed. Er enghraifft, bydd y gefnogaeth a ddarperir gan dimau Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yr awdurdod lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dod i ben unwaith y bydd person ifanc yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed, a dim ond ar ôl iddynt gyflawni trosedd y bydd y gwasanaeth Prawf yn ymgysylltu ag oedolion ifanc. Pwy sy’n gyfrifol, a phwy ddylai gael ei ddwyn i gyfrif am ddarparu gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu unwaith y bydd person ifanc yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed?

Trafodwyd diffyg eglurder o gwmpas y strwythur llywodraethu perthnasol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o'r fath yn Nhrafodaeth Bord Gron CHTh. Crybwyllwyd cynlluniau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Canolfannau Dyfodol Ieuenctid[18], yn ogystal ag integreiddio posibl i strwythurau llywodraethu partneriaethau presennol.

**Argymhelliad 3: Dylai Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gychwyn trafodaethau mewn perthynas â strwythur llywodraethu ffurfiol, sy'n cyd-fynd â gweithgarwch partneriaeth presennol, yn benodol, mewn perthynas â gweithgarwch atal sy'n gysylltiedig â'r garfan 18-25.**

## 5. Effaith ar ymgysylltu ag oedolion ifanc a'u hatal rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol

### *Mae ymennydd pobl 18–25 oed yn parhau i ddatblygu gan eu gwneud yn fwy agored i ddylanwadau niweidiol sy'n eu denu i weithgarwch troseddol.*

Mae data Heddlu Dyfed-Powys yn dangos, yn ystod blwyddyn galendr 2024, fod pobl 18–25 oed wedi cyflawni 16% (3,731) o'r holl droseddau. Y troseddwyr mwyaf cyffredin oedd pobl rhwng 26 a 35 oed (23%, 5,523 o droseddau), ac yna pobl 36–45 oed (20%, 4,750), a'r rhai o dan 18 oed (17%, 3,999).

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae tystiolaeth yn dangos bod ymennydd oedolion ifanc 18–25 oed yn parhau i ddatblygu, gan eu gwneud yn fwy agored i ddylanwadau niweidiol sy'n eu denu i weithgarwch troseddol[19]. Felly, er nad oes tystiolaeth i awgrymu bod y grŵp oedran 18–25 yn eithriad ystadegol o ran cyflawni troseddau, mae darparu gwasanaethau ar gyfer y garfan hon yn hanfodol wrth atal ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

Cydnabu tystion gwrandawiad Heddlu Dyfed-Powys nad oes menter bwrpasol ar gyfer y grŵp oedran hwn o fewn y rhaglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig, ond bod pob unigolyn dros 18 oed yn gymwys. Nod cyffredinol rhaglen Rheoli Troseddwyd yn Integredig Heddlu Dyfed-Powys yw lleihau aildroseddu, cefnogi adsefydlu ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Rhoddir sylw i anghenion troseddogenig, a chyfeirir troseddwyr a reolir trwy'r rhaglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig at wasanaethau a fydd yn cefnogi ymatal rhag gweithgarwch troseddol pellach.

Yn genedlaethol, y garfan 18–25 oed yw'r grŵp oedran sydd â'r gynrychiolaeth isaf o fewn y rhaglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Yn lleol, mae cynrychiolaeth y garfan hon o fewn rhaglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig Heddlu Dyfed-Powys wedi lleihau. Ar adeg ysgrifennu, roedd y garfan 18–25 yn cyfrif am 22.7% (20) o droseddwyr a oedd yn cael eu rheoli o dan raglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig.

---

[18] "Young Futures Hubs will bring together services to improve access to opportunities and support for young people at community level, promoting positive outcomes and enabling them to thrive." [Young Futures Hubs - GOV.UK]

[19] *Dynamic mapping of human cortical development during childhood through early adulthood*, Gogtay ac eraill, 2004.

Mae bron i 40% o droseddwyr (35) o fewn rhaglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig rhwng 36 a 45 oed.

***Mae'r troseddau mwyaf cyffredin gan y garfan yn awgrymu anawsterau â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol fel rheoli dicter a pherthnasoedd cadarnhaol. Mae angen sicrhau bod gweithgareddau atal yn canolbwyntio ar y meysydd hyn.***

Er mwyn ymchwilio'n ddyfnach i droseddau a gyflawnwyd gan bobl 18–25 oed, ystyriwyd y mathau o droseddau a gofnodwyd yn ystod 2024 ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae dadansoddiad o'r data i'w weld yn Atodiad G.

Ar draws pob ardal awdurdod lleol, trais yn erbyn y person oedd y categori trosedd a gyflawnwyd fwyaf gan bobl 18–25 oed: 57.9% (738) yn Sir Gaerfyrddin, 47.1% (278) yng Ngheredigion, 52.1% (557) yn Sir Benfro, a 50.9% (383) ym Mhowys.

Mae trais yn erbyn y person yn cwmpasu'r is-gategori troseddau o drais ag anaf, trais heb anaf, stelcio ac aflonyddu, a marwolaeth neu anaf difrifol a achosir gan yrru'n anghyfreithlon. Ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, trais heb anaf oedd y drosedd trais yn erbyn y person mwyaf cyffredin a gyflawnwyd gan y grŵp oedran hwn: 48.2% (356) o droseddau trais yn erbyn y person yn Sir Gaerfyrddin, 42.1% (117) yng Ngheredigion, 44.2% (246) yn Sir Benfro, a 36.6% (140) ym Mhowys.

O dan reolau cofnodi troseddau'r Swyddfa Gartref, dylid cofnodi trais heb anaf *"pan fydd rhywun yn adrodd eu bod wedi cael eu bygwth ar lafar neu'n gorfforol (sy'n cyfateb i ofn trais) mewn man preifat, h.y. y tu mewn i annedd. […] Mae enghreifftiau eraill o ymosodiad cyffredin yn cynnwys poeri a thaflu eitemau at y dioddefwr."*[20]

Felly, mae'r troseddu mwyaf cyffredin gan y garfan hon yn awgrymu problemau gyda sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a rheoli dicter. Roedd hwn hefyd yn fwlch yn y ddarpariaeth a nodwyd drwy'r gweithgaredd mapio.

Stelcio ac aflonyddu oedd y drosedd trais yn erbyn y person a gyflawnwyd ail fwyaf yn 2024 gan bobl 18–25 oed ym mhob ardal ac eithrio Ceredigion, lle trais ag anaf oedd yr ail fwyaf. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch problemau perthnasoedd ymhlith y garfan hon, gan mai dyma'r oedran pan all oedolion ifanc adael cartref y teulu a datblygu perthnasoedd newydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gweld atal sylfaenol yn hanfodol ar gyfer creu amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol[21]. Mae'r Pwyllgor Dethol, trwy'r gweithgaredd mapio, wedi barnu fod y dull cyffredinol hwn o atal ar goll. Felly, mae'n bwysig bod ymyriadau/mentrau ymgysylltu perthnasoedd iach ar gael yn rhwydd ac yn cael eu cyflwyno ar gyfer y grŵp oedran hwn i atal y problemau hyn rhag gwaethygu.

[20] Tudalen 43, [Rheolau cofnodion troseddau ar gyfer swyddogion a staff rheng flaen]
[21] [Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu - Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru]

Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn cydnabod bod y grŵp oedran hwn yn wynebu heriau penodol megis ffactorau cymdeithasol, emosiynol a datblygiadol sy'n unigryw i oedolion ifanc, fel y nodwyd uchod. Mae ymarferwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn defnyddio asesiadau aeddfedrwydd i ddeall aeddfedrwydd yr unigolyn ac yn teilwra eu hymatebion o ganlyniad trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y person.

Yn Nhrafodaeth Bord Gron CHTh, cydnabuwyd y cyswllt rhwng yr agenda tlodi a lles y canolbwyntiwyd arno mewn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac atal trosedd, gan gynrychiolwyr awdurdod lleol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r canllawiau 'Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflenwi ar gyfer pobl ifainc' hefyd yn cydnabod yr angen ar gyfer gweithgareddau i oedolion ifainc sy'n canolbwyntio ar "wella eu lles corfforol, emosiynol a meddyliol."[22].

**Argymhelliad 4: Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gydlynu adolygiad o wasanaethau ymyrryd, atal ac ymgysylltu o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl 18-25 oed er mwyn sicrhau ffocws penodol ar sgiliau emosiynol, rheoli dicter a pherthnasau iach.**

### *Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn deall eu proffiliau oedran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llawn. Mae hyn yn rhwystro dealltwriaeth o ble y gellir targedu ymyrraeth i gael yr effaith orau.*

Troseddau cyffuriau oedd y math o drosedd a gyflawnwyd ail fwyaf ar draws yr holl ardal awdurdod lleol ar wahân i Sir Benfro, lle llosgi bwriadol a difrod troseddol oedd y categori trosedd ail fwyaf, ac yna troseddau cyffuriau a threfn gyhoeddus.

Mae data Heddlu Dyfed-Powys yn dangos fod y grŵp oedran 18–25 wedi cyflawni mwy na chwarter (28.6%, 385) o'r holl droseddau meddu ar gyffuriau rheoledig[23] (1,348) o fewn blwyddyn galendr 2024. Nhw oedd y grŵp oedran yn yr ail safle ar ôl pobl 26–35 oed, gyda 393 o droseddau (29.2%). Mae dadansoddiad o droseddau meddu ar gyffuriau rheoledig ar gyfer 2024, yn ôl grŵp oedran, ar gael yn Atodiad H yn nogfen atodiadau'r adroddiad cryno.

Wrth ystyried yr uchod, mae'n destun pryder bod Heddlu Dyfed-Powys wedi dweud wrth y pwyllgor nad oedd y grŵp oedran 18–25 yn ymddangos fel eithriad ystadegol ar gyfer unrhyw fath penodol o drosedd. Roedd yn amlwg bod data troseddau wedi cael ei ystyried cyn y gwrandawiad, ond awgrymodd y pwyllgor nad oedd gan Heddlu Dyfed-Powys ddealltwriaeth lawn o broffil troseddu ar gyfer y garfan benodol hon. Gallai hyn fod oherwydd ffocws Heddlu Dyfed-Powys ar wasanaethau i blant, a amlygwyd fel blaenoriaeth plismona yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol.

[22] Tudalen 7, Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc| Llywodraeth Cymru
[23] Rheolau Cofnodi Troseddau'r Swyddfa Gartref, tudalen 85 crime-recording-rules-for-frontline-officers-and-staff-2025_26-november-2025-update.pdf. *92D Meddu ar gyffuriau rheoledig (ac eithrio canabis), 92E Meddu ar gyffuriau rheoledig (canabis)*

Yn ogystal, roedd rhywedd troseddwyr 18–25 oed yn ‘anhysbys’/’heb ei gofnodi’ mewn 60% o ganlyniadau gwarediad y tu allan i’r llys a gymhwyswyd gan Heddlu Dyfed-Powys yn 2024. Mae’r Pwyllgor Dethol yn awgrymu bod hyn yn rhwystro dealltwriaeth Heddlu Dyfed-Powys o ran a oes angen gwahanol ddulliau ar gyfer rhywedd/hunaniaethau rhywedd gwahanol a sut y gellir targedu ymyrraeth i gael yr effaith orau.

Fel rhan o adolygiad y Pwyllgor Dethol, cynhaliwyd adolygiad hap samplo o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol lle’r oedd y troseddwr honedig yn 18–25 oed gan staff o Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad hap samplo i’w gweld yn Atodiad I. Yn eu hymateb i ganfyddiadau Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, nododd Heddlu Dyfed-Powys nad oedd y categori oedran 18–25 yn cael ei ystyried yn gategori oedran amlwg ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y garfan dan 18 oed yn cael ei hystyried.

Mae’n bosibl awgrymu y gall nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol gynyddu wrth i bobl ifanc gyrraedd y grŵp oedran 18–25, oherwydd annibyniaeth newydd unigolion wrth adael cartref y teulu i fynd i’r brifysgol neu i symud i mewn gyda ffrindiau/partneriaid. Er enghraifft, gellir disgwyl mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n gysylltiedig â sŵn o amgylch llety prifysgol.

Ar ddechrau adolygiad y Pwyllgor Dethol, nid oedd Heddlu Dyfed-Powys yn gallu darparu dadansoddiad o droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ôl oedran y troseddwr. Fodd bynnag, mae cynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod y byddai data o’r fath yn fuddiol wrth helpu i ddeall ble y gellid targedu atal.

Ar adeg ysgrifennu’r papur hwn, roedd Heddlu Dyfed-Powys wrthi’n drafftio proffil problemau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn berthnasol i adolygiad y Pwyllgor Dethol hwn, nododd y papur drafft duedd, rhwng Tachwedd 2024 a Hydref 2025, fod nifer y troseddwyr yn cyrraedd brig rhwng 30 a 39 oed.

**Argymhelliad 5: Dylai Heddlu Dyfed-Powys ystyried datblygu Proffil Strategol i ystyried yn fanwl trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflawnir gan y garfan 18-25 oed yn benodol ledled yr ardal heddlu, i adnabod meysydd ffocws posibl ar gyfer gwasanaethau rheoli troseddwyr, ymyrraeth, atal ac ymgysylltu yn y dyfodol. Dylid rhannu’r canfyddiadau â phartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus fel rhan o’u hasesiadau lles.**

**Argymhelliad 6: Rhaid i Heddlu Dyfed-Powys ddiweddaru eu dangosfyrddau data i sicrhau bod grwpiau oedran yn cael eu cynnwys yn rheolaidd ym mhob set ddata er mwyn deall proffiliau oedran troseddwyr yn well.**

***Mae iechyd meddwl a niwrowahaniaeth yn fater sy’n effeithio ar oedolion ifanc yn rheolaidd. Mae angen i wasanaethau gydweithio fwyfwy i ddiwallu anghenion cymhleth oedolion ifanc.***

Yn y gwrandawiad, dywedodd tystion Heddlu Dyfed-Powys, er nad oeddent yn teimlo bod oedolion ifanc yn eithriad ystadegol o ran unrhyw fath penodol o drosedd, eu bod yn eithriad o ran pryderon iechyd meddwl a gofynion cymorth. Cadarnhaodd Cydlynydd Hunanladdiad a Hunan-niwed Iechyd Meddwl Heddlu Dyfed-Powys fod Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd yn nifer y cyflwyniadau gan bobl 16-25 oed. Maent yn cyflwyno eu hunain i'r heddlu mewn argyfwng, naill ai drwy ffonio eu hunain, neu drwy ffrindiau/teulu yn ffonio ar eu rhan. Mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â hunan-niweidio ac yn aml mae gorgyffwrdd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Nid oedd y cydlynydd yn gallu darparu data ond dywedodd fod y cynnydd yn y galw yn cael ei adlewyrchu ar draws sefydliadau eraill, fel y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd meddwl.

Ar ddiwrnod y gwrandawiad, cynhaliwyd y gynhadledd iechyd meddwl amlasiantaeth gyntaf gan Heddlu Dyfed-Powys i ddeall pam mae hyn yn wir, ac i ganfod beth y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa.

Pwysleisiodd tystion awdurdodau lleol fod llawer o oedolion ifanc yn dioddef o dlodi gwledig yn ardal Dyfed-Powys, gan effeithio ar eu hiechyd meddwl, a bod pryderon iechyd meddwl yn un o'r themâu sy'n codi dro ar ôl tro ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth ieuenctid.

Ymddangosodd pryderon iechyd meddwl yn gyson yn yr achosion a adolygwyd drwy adolygiad hap samplo Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac amlygwyd cydweithio cadarnhaol rhwng yr heddlu a phartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Yn eu hymateb i ganfyddiadau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, rhoddodd Heddlu Dyfed-Powys wybod am waith parhaus yn dilyn y cynnydd mewn oedolion ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl ers pandemig COVID-19:

- Sefydlwyd grwpiau iechyd meddwl strategol a thactegol.
- Nodwyd sawl maes i'w gwella yn y gynhadledd, ac mae'r grwpiau a grybwyllir uchod yn eu datblygu.
- Roedd y gwaith o graffu a goruchwylio data iechyd meddwl wedi cynyddu, gan gynnwys data a gedwir gan bartneriaid, er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cynyddu eu heffeithiolrwydd i'r eithaf wrth ddelio â'r mater hwn.
- Pan fo cynlluniau sy'n canolbwyntio ar broblemau[24] yn nodi iechyd meddwl fel ffactor, mae partneriaid o wasanaethau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys a'u gwahodd i fod yn rhan o'r grŵp datrys problemau a gynullir ar gyfer pob un o'r cynlluniau hyn.

Mynegwyd pryder ynghylch problemau iechyd meddwl cynyddol a hunanladdiad ymhlith oedolion ifanc gan oedolion ifanc a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor Dethol, gan dynnu sylw at iechyd meddwl fel maes cymorth i'w flaenoriaethu ar gyfer y grŵp

[24] https://www.college.police.uk/research/crime-reduction-toolkit/problem-oriented-policing

oedran hwn. Rhoddwyd adborth cadarnhaol hefyd ar rôl chwaraeon wrth gefnogi iechyd meddwl, gan bwysleisio gwerth mentrau fel Premier League Kicks.

Mae angen gwaith pellach i ddeall effaith cyfranogiad cynnar gwasanaethau iechyd meddwl mewn datrys problemau.

Yn dilyn digwyddiad critigol ym mis Ebrill 2024 mewn ysgol leol lle trywanwyd dau athro a chyd-ddisgybl gan ddisgybl ysgol, cynhaliwyd adolygiad annibynnol. Cyhoeddwyd adroddiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.[25]. Nodwyd sawl argymhelliad yn yr adroddiad, gan gynnwys *"ystyried ar lefel leol a chenedlaethol sicrhau adnoddau a chapasiti i asiantaethau, ar draws pob sector, er mwyn gallu ymateb i lefelau cynyddol parhaus o gymhlethdod ac angen plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cynyddu adnoddau yn genedlaethol i gwrdd â'r galw cynyddol am gymorth bugeiliol a llesiant, gan gynnwys capasiti seicoleg addysg."*

Mae'r un digwyddiad hwn yn cyfleu pwysigrwydd gallu asiantaethau partner i ddelio'n effeithiol â materion iechyd meddwl. Disgrifiodd tad y plentyn *"disgrifiodd achlysuron pan geisiodd gael help i {blentyn A} ddelio â'i phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, ac roedd yn teimlo nad oedd unrhyw un o'r gwasanaethau yn deall {y plentyn} a'i hanghenion."*[26]

O ystyried y pryder a godwyd gan Heddlu Dyfed-Powys bod oedolion ifanc yn eithriad ystadegol o ran pryderon iechyd meddwl yn lleol, y dystiolaeth gan bartneriaid awdurdodau lleol, a chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol i'r digwyddiad critigol ym mis Ebrill 2024, mae'n galonogol clywed am y gynhadledd amlasiantaeth a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Heddlu Dyfed-Powys yn y maes hwn. Fodd bynnag, rhannodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei bryderon yn y gwrandawiad bod diffyg capasiti ar draws asiantaethau partner i ddelio â materion iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc.

**Argymhelliad 7: Drwy graffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar Gynlluniau Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau, dylid ystyried asesu effeithiolrwydd cysylltiad cynnar gwasanaethau iechyd meddwl yn y broses datrys problemau. Yna, dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddefnyddio'r wybodaeth hon i lobïo, ochr yn ochr â chymheiriaid o Gymru, ar lefel genedlaethol ar gyfer adnoddau a gallu digonol i ymateb i anghenion iechyd meddwl cymhleth oedolion ifainc.**

***Mae angen gwneud mwy i orfodi llwybrau i weithgarwch dargyfeiriol trwy ddefnyddio Canlyniad 22.***

---

[25] Adroddiad Adolygiad Annibynnol MAPF Ysgol Dyffryn Aman cysur-2-2024-mapf-adroddiad.pdf
[26] Tudalen 4, Adroddiad Adolygiad Annibynnol MAPF Ysgol Dyffryn Aman cysur-2-2024-mapf-adroddiad.pdf

Mae Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref yn darparu safon genedlaethol ar gyfer cofnodi a chyfrif troseddau ar gyfer heddluoedd. Mae'r rheolau'n nodi bod rhaid i'r heddlu neilltuo math o ganlyniad i bob trosedd a gofnodwyd[27]. Mae canlyniadau'n nodi'r rheswm pam mae ymchwiliad wedi cau.

Oherwydd natur yr adolygiad hwn, rhoddwyd ffocws ar gymhwyso gwarediad y tu allan i'r llys. Mae'r Coleg Plismona yn diffinio gwarediadau y tu allan i'r llys fel *"ystod o opsiynau sydd ar gael i'r heddlu eu defnyddio mewn rhai achosion fel dewis arall yn lle erlyn"*[28].

Mae data'r Swyddfa Gartref[29] yn dangos mai dim ond 7% (2,620) o'r 37,806 o ganlyniadau a gymhwyswyd gan Heddlu Dyfed-Powys rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 oedd yn warediadau y tu allan i'r llys. Cyhuddwyd troseddwyr mewn 4% (1,472) o achosion.

Mae data Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2024 yn dangos fod 19.3% (728) o'r 3,760 o ganlyniadau a gymhwyswyd ar gyfer y garfan 18–25 yn warediadau y tu allan i'r llys. Cyhuddwyd troseddwyr 18–25 oed mewn 2% (74) o achosion.

Dim ond 0.3% (368) o'r holl ganlyniadau a gymhwyswyd yn ystod 2024 ar draws pob grŵp oedran oedd Canlyniad 22 (gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth), a dim ond 0.07% (3) o'r holl ganlyniadau a gymhwyswyd i droseddau a gyflawnwyd gan y garfan 18–25 oed.

Mae Canlyniad 22 yn wahanol i'r gwarediadau y tu allan i'r llys eraill (rhybuddion neu ddatrysiadau cymunedol oedolyn), gan nad yw'n cael ei ystyried yn 'ganlyniad cadarnhaol' o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Mae canlyniadau cadarnhaol yn cynrychioli achosion lle mae'r troseddwr wedi cael ei *"ddwyn gerbron y llys"*[30]. Yn lle hynny, caiff Canlyniad 22 ei ddosbarthu fel 'canlyniad wedi'i ddatrys' lle mae'r troseddwr wedi'i adnabod ond mae'r ymchwiliad i'r drosedd wedi'i gau, naill ai heb i'r troseddwr gael ei ddwyn gerbron y llys, neu gan fod yr heddlu wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb i sefydliad arall ar gyfer camau pellach[31].

Mae data Heddlu Dyfed-Powys yn dweud wrthym mai dim ond tair gwaith y cymhwyswyd Canlyniad 22 yn ystod 2024 i droseddau a gyflawnwyd gan bobl 18–25 oed, ar gyfer cyffuriau, llosgi bwriadol, a thrais yn erbyn y person. Mae'r ffigur isel hwn yn peri pryder o'i ystyried ochr yn ochr â'r data ar gyfer y rhai dan 18 oed: Mae 88% (142) o'r holl ddeilliannau Canlyniad 22 a gymhwyswyd yn ymwneud â'r garfan iau hon. Holodd y Pwyllgor Dethol a oedd y gweithgareddau dargyfeiriol, addysgol ac ymyrraeth sy'n ofynnol ar gyfer Canlyniad 22 ar waith i'r rhai dros 18 oed, neu a yw'n

---

[27] Canlyniadau troseddau yng Nghymru a Lloegr: Atodiad technegol - GOV.UK
[28] Canlyniadau cyfiawnder posibl yn dilyn ymchwiliad | Coleg Plismona
[29] Canlyniadau troseddau yng Nghymru a Lloegr 2024 i 2025 - GOV.UK
[30] Canlyniadau cadarnhaol - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
[31] Canlyniadau wedi'u datrys - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

wir bod yr heddlu efallai'n llai tueddol o hyrwyddo dargyfeirio ar ôl i droseddwr gael ei ben-blwydd yn 18 oed.

Ym mis Chwefror 2024, ysgrifennodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu at yr Ysgrifennydd Cartref i fynegi ei gefnogaeth i argymhelliad y Gronfa Gwaddol Ieuenctid y dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau bod gan yr heddlu'r cymhellion i ddefnyddio dargyfeirio, h.y., bod Canlyniad 22 yn cael ei gofnodi fel canlyniad llwyddiannus[32].

Gall rhai gwarediadau y tu allan i'r llys effeithio ar gofnod troseddol unigolyn. Er enghraifft, *"mae rhybudd amodol yn rhan o gofnod troseddol a gellir, mewn rhai amgylchiadau, ei ddatgelu mewn achos cyfreithiol yn y dyfodol neu i gyflogwr wrth wneud cais i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae hyn fel rhan o wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd."*[33] Felly, efallai y bydd gan Ganlyniad 22 lai o effaith ar lwyddiannau person ifanc yn y dyfodol.

Yn ogystal, yn wahanol i'r gwarediadau y tu allan i'r llys eraill, gellir defnyddio Canlyniad 22 lle nad yw'r troseddwr honedig wedi cyfaddef ei fod yn euog nac wedi derbyn cyfrifoldeb[34]. Rhaid cwblhau'r gweithgaredd dargyfeiriol a nodir o dan Ganlyniad 22, ac os bydd yr unigolyn yn methu â gwneud hynny, mae gan yr heddlu'r *"pŵer i orfodi canlyniad gwaredu ffurfiol"*[35].

### ***Gwelir ymyrraeth yn ystod plentyndod fel yr un mwyaf effeithiol wrth leihau troseddu ymhlith oedolion ifanc.***

Er bod yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar oedolion ifanc, pwysleisiodd ymarferwyr i'r pwyllgor yr angen i ymyrryd ac atal troseddu yn gynharach er mwyn lleihau troseddu gan oedolion ifanc.

Pwysleisiodd RAY Ceredigion mai'r *"llwybr i leihau troseddu i bobl 18–25 oed yw dechrau'n gynnar".* Yn yr un modd, nododd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi fod *"gwaith dargyfeiriol gyda phlant a phobl ifanc yn cael effaith gadarnhaol ar y garfan 18–25 oed".*

Awgrymodd tystion Heddlu Dyfed-Powys y dylai adnoddau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys ganolbwyntio fwy a blaenoriaethu'r rhai dan 18 oed, oherwydd bod y gwaith a wneir gyda phlant yn cael ei drosglwyddo'n naturiol i'r grŵp oedran 18–25. Awgrymodd tystion mai yn yr oedran iau hwn y mae plant yn gwneud penderfyniadau hirdymor sy'n gysylltiedig â chyfoedion a'u hamgylchedd y tu allan i'r ysgol.

Fodd bynnag, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod bod Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024-2027 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn ymestyn i'r grŵp oedran 18–24, a nodwyd, os oedd yn unol â chanfyddiadau'r Pwyllgor Dethol, y

[32] Tudalen 11, Arrested-children-How-to-keep-children-safe-and-reduce-reoffending.pdf
[33] Canlyniadau cyfiawnder posibl yn dilyn ymchwiliad | Coleg Plismona
[34] Tudalen 5, Canllawiau Canlyniad 22 (O22) 2022
[35] Tudalen 6, Canllawiau Canlyniad 22 (O22) 2022

byddent yn ystyried sut y gellir esblygu ac ehangu eu strategaethau presennol i gynnwys oedolion ifanc.

| |
|---|
| **Argymhelliad 8: Dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio sicrwydd bod Canlyniad 22 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn atal pobl 18-25 oed rhag troseddu yn y dyfodol.** |

### *Gall fod yn anodd mesur effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu, ond mae enghreifftiau o arferion da yn bodoli.*

Yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol, awgrymwyd bod y gyfradd isel o achosion ar gyfer cyfiawnder ieuenctid lle mae plentyn 10 i 17 oed dan amheuaeth neu'n euog o gyflawni trosedd, yn dangos effaith gwaith atal cyn 18 oed. Ond pan ofynnwyd iddynt sut y mesurwyd effaith gwasanaethau i oedolion ifanc 18 oed a throsodd, cydnabu tystion fod hyn yn anodd ei fesur.

Siaradodd tystion am y nifer o ffrydiau ariannu a ddefnyddir ar gyfer darparu gwasanaethau, a phob un ohonynt yn gofyn am gyflwyno data ansoddol a meintiol i wahanol ffynonellau i ddangos sut mae cyllid yn cael ei wario. Awgrymwyd nad oedd yr wybodaeth o'r ffynonellau niferus hyn yn cael ei chasglu'n ganolog. Gall gwneud hyn gyflwyno golwg fwy cyfannol ar effaith gwasanaethau.

Cadarnhawyd yn y gwrandawiad fod awdurdodau lleol wedi casglu data cyfraddau aildroseddu ar gyfer pobl dan 18 oed, ond nid ar gyfer pobl dros 18 oed. Byddai'n fuddiol casglu'r data hwn er mwyn galluogi gwerthusiad mwy effeithiol a chadarn o wasanaethau.

Yn yr un modd, nid oedd data aildroseddu Heddlu Dyfed-Powys yn ystyried oedrannau troseddwyr ar hyn o bryd. Gosodwyd camau gweithredu i Heddlu Dyfed-Powys drwy gyfarfod Bwrdd Perfformiad Strategol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu[36] i ystyried ymhellach y data y maent yn eu cyflwyno ar nifer a chyfran yr ad-droseddwyr. Cadarnhawyd wedi hynny, oherwydd ffocws adolygiad y Pwyllgor Dethol hwn, y byddai'r angen am olwg benodol ar ddata ar gyfer pobl 18–25 oed yn cael ei ychwanegu at y cylch gorchwyl ar gyfer eu dadansoddiad. Unwaith eto, bydd y data hwn yn amhrisiadwy wrth alluogi gwerthusiad mwy cadarn o wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer oedolion ifanc.

Yn Sir Benfro, mae'r system gwybodaeth reoli yn caniatáu nodi newidiadau yn nhaith bywyd unigolyn oherwydd gwasanaethau ymyrraeth ac atal, ond nodwyd bod anhawster wrth fesur y dystiolaeth hon o effaith. Darparwyd astudiaethau achos ar lafar yn y gwrandawiad, ond cadarnhawyd nad yw straeon newyddion da o'r fath yn cael eu cyfleu'n rheolaidd mewn adroddiadau perfformiad.

Yn y gwrandawiad, awgrymodd tystion awdurdodau lleol fod nifer y oedolion ifanc a oedd yn ymgysylltu trwy wasanaethau fel y rhai a ddarperir gan weithwyr ieuenctid

[36] https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/llywodraethu/bwrdd-perfformiad-strategol/

coleg ac allgymorth yn fesur posibl o effaith, fodd bynnag nid oedd yn glir a gofnodwyd hyn.

Adroddodd tystion Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin ill dau fod gwaith ad hoc yn cael ei wneud yn lleol i werthuso effaith gwasanaethau. Er enghraifft, roedd Ceredigion yn mesur effaith gwasanaethau ar-lein ac yn cynnal gwerthusiad o waith atal trwy gyllid ardaloedd â phroblemau gwrthgymdeithasol[37]. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd gwerthusiad o drosglwyddo o Wasanaethau Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf wedi'i gynnal. Ystyriwyd nifer fach o achosion o ran y canlyniad, y paratoadau ar gyfer y trosglwyddo, presenoldeb mewn cyfarfodydd, a hyd y cyfnod pontio. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd Polisi/Cytundeb Trosglwyddo gyda'r Gwasanaeth Prawf, a defnyddiwyd y dysgu i newid y ffordd o weithio'n lleol. Mae'r Pwyllgor Dethol yn awgrymu, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, y dylai Gwasanaethau Ieuenctid Sir Gaerfyrddin rannu'r dysgu hwn gyda'u cyfoedion yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys.

Rhannwyd gwybodaeth gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi am eu prosesau ar gyfer deall effaith eu gwaith ar oedolion ifanc. Mae gwybodaeth reoli fewnol a data perfformiad yn caniatáu i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi fonitro effaith y gweithgareddau y maent yn eu cynnal gyda oedolion ifanc. Maent hefyd yn monitro hyn drwy weithgarwch gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a chyfarfodydd partneriaeth ranbarthol eraill. Nodwyd bod y fforymau hyn yn galluogi rhannu gwybodaeth amlasiantaethol ac ymatebion ar y cyd i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Cyfeiriodd tystion Heddlu Dyfed-Powys at Gynllun Dargyfeirio Dyfed-Powys[38] sy'n cael ei gynnal gan Pobl ac a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n anelu at ddelio ag ymddygiad troseddol yn llawer cynt yn ystod taith droseddu unigolyn drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a materion iechyd a chymunedol cysylltiedig. Dywedodd tystion fod 30% o'r atgyfeiriadau i'r cynllun o'r garfan 18–25 oed. Rhwng Ebrill a Hydref 2025, adroddodd Pobl am y canlynol:

- Derbyniwyd 615 o atgyfeiriadau i Gynllun Dargyfeirio Dyfed-Powys (pob oedran a phob trosedd).
- Roedd 28% (170) o'r rhain ar gyfer unigolion 18–25 oed.
- Gwnaed 79% (95) o'r atgyfeiriadau ar gyfer oedolion ifanc yn dilyn meddiant sylwedd anghyfreithlon.
    - Mae hyn yn awgrymu ymateb cadarnhaol i ddargyfeirio carfanau iau.
- Dim ond 7% o'r atgyfeiriadau ar gyfer oedolion ifanc oedd yn atgyfeiriadau ailadroddus.
    - Mae hyn yn awgrymu yr effaith gadarnhaol y mae gweithgaredd dargyfeiriol yn ei gael ar bobl ifanc.

[37] https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/newyddion/comisiynydd-heddlu-a-throseddu-sicrhau-arian-gan-y-swyddfa-gartref-i-wella-diogelwch-cymunedol-drwy-r-gronfa-ymateb-i-ardaloedd-a-phroblem-ymddygiad-gwrthgymdeithasol/
[38] https://codigroup.co.uk/care-and-support/support-services/the-diversionary-scheme

Awgrymodd tystion fod angen i gyfiawnder ieuenctid ystyried yn genedlaethol sut mae effaith gwasanaethau yn cael ei mesur. Cydnabu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr heriau o fesur effaith gwaith atal, nid yn unig o fewn cyfiawnder ieuenctid, ond hefyd ar draws plismona.

**Argymhelliad 9: Dylai Gwasanaethau Ieuenctid Caerfyrddin rannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad o drosglwyddo o Wasanaethau Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf gyda thimau Gwasanaethau Ieuenctid eraill ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Dylai Gwasanaethau Ieuenctid Ceredigion, Sir Benfro a Phowys gydweithio â'r Gwasanaeth Prawf i ystyried sut y gellid cymhwyso'r Polisi/Cytundeb Trosglwyddo â'r Gwasanaeth Prawf yn ardal eu hawdurdod lleol.**

**Argymhelliad 10: Dylai Dadansoddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio data'r heddlu a phartneriaid i fesur ac olrhain effaith gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

## 6. Ymwybyddiaeth o wasanaethau

### ***Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn isel.***

Yn eu hadroddiad hapsamplu, codwyd pryder gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch cysondeb ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd dargyfeirio ac ymyrryd ar draws timau Heddlu Dyfed-Powys. Er bod rhai enghreifftiau o gyfleoedd yn cael eu hystyried a'u cymhwyso, a'r wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu gyda'r dioddefwr/troseddwr honedig, ystyriwyd y gall rhai cyfleoedd fod wedi'u colli neu eu hanwybyddu. Er enghraifft, mewn achos lle cafodd oedolyn ifanc ei stopio gan aelod o'r Tîm Troseddau Gwledig a'i ganfod â chyffuriau yn ei feddiant, nid oedd unrhyw dystiolaeth eu bod wedi cael ei atgyfeirio at weithgarwch dargyfeiriol am gamddefnyddio sylweddau. Cwestiynodd staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a fyddai gan aelodau'r Tîm Troseddau Gwledig yr un ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaethau hyn â thimau eraill Heddlu Dyfed-Powys.

Yn eu hymateb i ganfyddiadau'r hapsamplu, dywedodd Heddlu Dyfed-Powys fod bwlch yn eu rhaglen hyfforddi wedi'i gydnabod trwy eu hadolygiad o atal, ymyrraeth ac ymgysylltu ar gyfer plant dan 18 oed. Un o brif bwyntiau dysgu eu hadolygiad oedd yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal gan Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid. Fel rhan o'r model a gymeradwywyd oherwydd yr adolygiad, roedd adnodd hyfforddi pwrpasol wedi'i gymeradwyo, a fydd yn hyfforddi swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ym maes ymwybyddiaeth o wasanaethau.

Mae'n hanfodol bod pob darparwr gwasanaeth yn hyderus yng ngwybodaeth a dealltwriaeth eu staff o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i oedolion ifanc ar draws y gwahanol asiantaethau.

**Argymhelliad 11: Dylai Hyfforddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn a Thrawma Heddlu Dyfed-Powys weithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen hyfforddi er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r agenda ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n berthnasol i oedolion ifainc 18-25 oed ar draws yr asiantaethau gwahanol.**

### *Nid yw oedolion ifanc yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt.*

Drwy arolwg y Pwyllgor Dethol a gynhaliwyd gyda oedolion ifanc, roedd yn amlwg, er bod rhai gwasanaethau wedi'u cydnabod, fel Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Rhaglen INTACT a Premier League Kicks, bod ymwybyddiaeth gyffredinol o wasanaethau yn isel: nid oedd llawer o oedolion ifanc wedi clywed am y gefnogaeth sydd ar gael ar draws eu cymunedau, sy'n destun pryder. Tynnwyd sylw hefyd gan ymatebwyr yr arolwg at hyrwyddo gwasanaethau'n well, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol.

Nododd tystion Heddlu Dyfed-Powys eu buddsoddiad mewn ap ymgysylltu cymunedol, a fydd yn galluogi swyddogion i gael mynediad at wybodaeth ddemograffig a thargedu ymgysylltiad at gymunedau penodol. Cynigiwyd y gallai hyn gynnwys y garfan 18–25 oed ac i'r ap gael ei ddefnyddio i hyrwyddo gwasanaethau Heddlu Dyfed-Powys yn weithredol ar draws pob grŵp oedran.

**Argymhelliad 12: Yn gyson â'r rhaglen hyfforddi argymelledig, dylai partneriaid hyrwyddo'r gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd ar gael i oedolion ifainc 18-25 oed yn weithredol.**

O ran gwella gwelededd ac ymgysylltiad â chymunedau, siaradodd tystion Heddlu Dyfed-Powys yn y gwrandawiad am newidiadau diweddar i weithgarwch ymgysylltu eu timau plismona ac atal bro. Ychydig iawn o gyfeiriadau a wnaed at ymgysylltu penodol ag oedolion ifanc 18–25 oed. Mae ymgysylltiad yr heddlu â'r garfan hon yn hanfodol er mwyn parhau â'r perthnasoedd cadarnhaol a adeiladwyd trwy'r rhaglen Cyswllt Ysgolion, cynnal ymddiriedaeth a hyder a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael.

Cydnabu tystion Heddlu Dyfed-Powys fwlch yn yr ymgysylltiad ag oedolion ifanc mewn addysg bellach ac uwch yn y grŵp oedran 18–25. Cadarnhawyd nad oedd tîm pwrpasol ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y grŵp oedran hwn, yn wahanol i'r adolygiad atal, ymyrraeth ac ymgysylltu oedran ysgol. Un o'r argymhellion o'r adolygiad hwnnw oedd canolbwyntio ar ymgysylltu ag oedolion ifanc mewn addysg bellach ac uwch, a'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.

**Argymhelliad 13: Gyda chymorth partneriaid a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rhaid i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau bod y Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu'n cael ei weithredu, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu**

**ag oedolion ifainc mewn sefydliadau addysg uwch, yn ogystal â'r rhai sydd ddim mewn addysg.**

## 7. Edrych ymlaen

Hoffai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Pwyllgor Dethol ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad hwn, boed hynny drwy ymateb i'r arolwg ar gyfer oedolion ifanc, cyflwyno tystiolaeth mewn ymateb i'r galwad agored am dystiolaeth, fel tyst yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol, neu cymryd rhan yn y drafodaeth Bwrdd Grwn. Mae eich arbenigedd a'ch profiad wedi bod yn hanfodol wrth lunio'r adroddiad a'r argymhellion hyn.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â'r asiantaethau perthnasol a'i gyhoeddi ar wefan CHTh.

Chwe mis ar ôl ei gyhoeddi, bydd y Pwyllgor Dethol yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion gan yr asiantaethau perthnasol.